

HAF 2022

Cylchgrawn

# HWWYL YR HAF

TRYSTAN  
AC EMMA

SGWRS GYDA'R  
CYFLWYNWYR

GAIR AM GOGINIO A  
DYSGU CYMRAEG GYDA  
THIBAUT COURTOISIER

LROESO  
NÔL I'R  
EISTEDDFOD

Dych chi'n dod  
i Dregaron?

TUDALEN  
BOSAU

Beth am wneud  
pos dros baned?



dysgucymraeg.cymru  
learnwelsh.cymru



CYMRAG

Dysgu  
Learn

# CROESO



Efa Gruffudd Jones  
Prif Weithredwr y Ganolfan  
Dysgu Cymraeg Genedlaethol

*Croeso i gylchgrawn Hwyl yr Haf!*

Diolch am ddarllen cylchgrawn Hwyl yr Haf. Gobeithio byddwch chi'n mwynhau ac yn **rhoi cynnig ar** ddarllen pob un o'r erthyglau.

Darllenwch am Thibault Courtoisier, y **pobydd** sy wedi rhannu rysâit gyda ni. Beth am drïo coginio Tarte Tatin? Neu os ydy **datrys pos** dros baned yn apelio, ewch i dudalen 27.

Dych chi'n mynd ar wyliau dros yr haf? Cofiwch gymryd rhan yn ein cystadleuaeth trwy anfon cerdyn post aton ni. Dych chi'n mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron? Dysgwch fwy am yr Eisteddfod ar dudalennau 18-19 - cyfle gwych i chi ymarfer eich Cymraeg!

Mwynhewch y darllen a 'dyn ni'n edrych ymlaen at eich croesawu i'r cyrsiau newydd sy'n dechrau ym mis Medi.

The National Centre for Learning Welsh works with 11 course providers to deliver a range of Welsh courses. Go to [learnwelsh.cymru](http://learnwelsh.cymru) for more information. Chief Executive, Efa Gruffudd Jones, welcomes you to this magazine for Welsh learners.

If you have any suggestions regarding the magazine, please email [office@dysgucymraeg.cymru](mailto:office@dysgucymraeg.cymru).



## Eich barn chi

Dych chi wedi mwynhau darllen cylchgrawn Hwyl yr Haf? 'Dyn ni eisiau clywed eich barn felly cofiwch anfon eich sylwadau at [swyddfa@dysgucymraeg.cymru](mailto:swyddfa@dysgucymraeg.cymru)

## Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol



Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn edrych ar ôl y sector Dysgu Cymraeg. Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda 11 **darparwr cyrsiau**, sy'n trefnu cyrsiau Dysgu Cymraeg. Am fwy o wybodaeth ac i chwilio am gwrs, ewch i [dysgucymraeg.cymru](http://dysgucymraeg.cymru)

## Atebion y Croesair

Ar draws	1. lleud
1 lawr	2. labordy
	3. gemwath
	4. aderyn
	5. bwthyn
	6. arfordir
	7. optegydd
	8. sianel
	9. twristiaeth
	10. rheilffordd
	11. rhywob
	12. castell

GEIRFA



**rhoi cynnig ar** – to give it a go  
**pobydd** – baker  
**datrys pos** – to solve a puzzle  
**Prif Weithredwr** – Chief Executive  
**darparwr cyrsiau** – course provider

*Diolch yn fawr*

i bawb fu ynghlwm â'r gwaith o greu Hwyl yr Haf. Diolch yn fawr i'r holl gyfranwyr, ffotograffwyr ac i Hannah Thomas, Angharad Prys, Anest Roberts, Llinos Hill, Helen Prosser, Eiry Miles, Helen Morfydd a Manon Llwyd Bowen am gydlynw'r cyfan. Dyluniwyd gan Debbie Thomas.

Noder os gwelwch yn dda bod y wybodaeth sy wedi'i chynnwys yn y cylchgrawn yn gywir wrth i ni fynd i'r wasg ond gall pethau newid.

# Mwynhau SIARAD CYMRAEG dros y gwyliau

Dyma rai syniadau i chi...

1. **Cadwch mewn cysylltiad** â'ch cyd-ddysgwyr dros yr haf - beth am gwrdd i fwynhau sgwrs yn Gymraeg dros banded neu beint?
2. **Chwilio am lyfr i ddarllen ar y traeth?** Mae dewis da o lyfrau, ar bob lefel, yn y gyfres 'Amdani!'. Ewch i'ch siop lyfrau Cymraeg leol neu'r llyfrgell i weld beth sy ar gael.
3. **Cofiwch fod llawer o adnoddau dysgu digidol** ar wefan dysgucymraeg.cymru, gan gynnwys fideos, deialogau ac ymarferion gwrando.
4. **Beth am ddefnyddio Duolingo neu SaySomethinginWelsh?** Mae'r apiau hyn yn ffordd wych o ymarfer rhwng eich gwersi.

say something in Welsh



## Cystadleuaeth! Dych chi eisiau cyfle i ennill cwrs am ddim?

Ysgrifennwch gerdyn post yn Gymraeg am eich gwyliau (**dychmygol** neu **go iawn**) a'i bostio mewn amlen at: Criw Dysgu Cymraeg, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Heol y Coleg, Caerfyrddin SA31 3EP. Cofiwch gynnwys eich manylion cyswllt (rhif ffôn neu e-bost). Mae'r gystadleuaeth yn agored i ddysgwyr ar bob lefel dysgu. Byddwn ni'n dewis ein hoff dri cherdyn, ac yn cynnig cwrs am ddim i'r enillwyr. Y dyddiad cau ydy 31 Awst. Yr ymgeiswyr sy'n gyfrifol am dalu i bostio'r cais; dydy'r Ganolfan ddim yn gyfrifol am unrhyw geisiadau sy'n mynd ar goll. Fydd y Ganolfan ddim yn dychwelyd unrhyw geisiadau. Gweler [dysgucymraeg.cymru](http://dysgucymraeg.cymru) am y telerau ac amodau llawn.



5. **Mae S4C yn dangos dros 80 o raglenni Cymraeg** bob wythnos, o ddrama a chwaraeon i gerddoriaeth ac **adloniant**. Dych chi'n gallu mwynhau eich Cymraeg o'ch soffla!
6. **Mae pob math o raglenni** - a phob math o acenion - ar Radio Cymru hefyd. Gwrandewch a mwynhewch a gadewch i'r Gymraeg olchi drostoch chi!
7. **Dych chi wedi gweld gwefan newydd Lingo 360 neu'n darllen cylchgrawn Lingo Newydd?** Mae'r ddau yn llawn erthyglau ac eitemau diddorol i ddysgwyr.
8. **Mwynhau cerddoriaeth?** Mae nifer o fandiau Cymraeg wedi **rhyddhau** albymau newydd ac yn mwynhau chwarae'n fyw ar ôl y pandemig. Darllenwch ein cyfweiliad gyda'r band 'Adwaith' ar dudalennau 24-25.
9. **Defnyddiwch dipyn bach o Gymraeg bob dydd** - gyda'ch ffrindiau, teulu, yn y gwaith neu yn y gymuned - ac yn bwysicach na dim, mwynhewch!

There are lots of fun ways to enjoy your Welsh over the summer. How about trying our competition? Write a postcard in Welsh about your holidays (imaginary or real) and post it in an envelope to the Learn Welsh Team, National Centre for Learning Welsh, College Rd, Carmarthen SA31 3EP, remembering to include your contact details. We'll be giving a Welsh course for free to our three favourites. The closing date is 31 August and the terms and conditions are available at [learnwelsh.cymru](http://learnwelsh.cymru)

## GEIRFA




**adloniant** – entertainment  
**rhyddhau** – to release  
**dychmygol** – imaginary  
**go iawn** – real

# CYNNIWYS



**10 - 12**  
**Pobi gyda Thibault**  
Gair am goginio a  
dysgu Cymraeg gyda  
Thibault Courtoisier



**13**  
**Cyfryngau cymdeithasol**  
Dych chi ar Instagram,  
Twitter neu TikTok?



**6 - 7**  
**Trystan ac Emma**  
Sgwrs gyda'r cyflwynwyr

**8 - 9**  
**Dysgwyr ifanc**  
Cyfle i bobl ifanc ddysgu  
Cymraeg am ddim

**10 - 12**  
**Pobi gyda Thibault**  
Gair am goginio a dysgu Cymraeg  
gyda Thibault Courtoisier

**13**  
**Cyfryngau cymdeithasol**  
Dych chi ar Instagram, Twitter  
neu TikTok?

**14 - 15**  
**Hanes Cymru**  
Llyfr 'Hanes yn y Tir'

**16 - 17**  
**Chwaraeon**  
Rygbi a pêl-droed



**18 - 19**

**Croeso nôl i'r Eisteddfod**  
Dych chi'n dod i Dregaron?

**18 - 19**

**Croeso nôl i'r Eisteddfod**  
Dych chi'n dod i Dregaron?

**20 - 22**

**Steil y cartref**  
Dan Do gyda Hannah Lloyd



**20 - 22**

**Steil y cartref**  
Dan Do gyda  
Hannah Lloyd

**23**

**Rajesh yn rhannu profiad**  
Canu, ioga a dysgu Cymraeg

**24 - 25**

**Adwaith**  
Dod i adnabod Adwaith

**26**

**Huw Foulkes a Chôr Cymru**  
Canu, covid a dianc rhag  
y gwaith

**27**

**Posau**  
Beth am wneud pos dros  
baned?

## Mae Emma Walford a Trystan Ellis-Morris ar BBC Radio Cymru bob dydd Gwener ac yn cyflwyno'r rhaglenni Priodas Pum Mil a Prosiect Pum Mil ar S4C.

Maen nhw yn ddoniol iawn ac yn ffrindiau da.

Mi gawson ni sgwrs fach gyda nhw i ddod i'w hadnabod yn well...

### O ble dach chi'n dod yn wreiddiol a ble dach chi'n byw rwan?

**Emma:** Dw i'n dod o Abergele wrth ymyl Y Rhyl yn wreiddiol, ond erbyn hyn dw i'n byw yn Y Bont Faen ger Caerdydd.

**Trystan:** Dw i'n dod o Ddeiniolen wrth ymyl Llanberis yn wreiddiol, ond erbyn hyn dw i'n byw yn ardal Battersby, Llundain.

### Pryd oedd y tro cyntaf i chi gyfarfod?

**Trystan:** Dan ni wedi dod ar draws ein gilydd ers blynnyddoedd ond y tro cyntaf i ni gael sgwrs go iawn oedd fflmio'r bennod gyntaf o Priodas Pum Mil.

**Emma:** Ro'n ni'n eistedd ar sofffa, yng nghanol cae yn Nyffryn Ogwen, ar fin gwneud lincs Priodas Pum Mil. Mi wnaeth un ohonom ni ddweud rhywbeth wnaeth wneud i'r llall chwerthin - a chwerthin go iawn nes o'n ni'n crïo.

Ac o'r eiliad honno ar y sofffa, ro'n i'n gwybod mod i wedi dod o hyd i ffrind. Dan ni'n gwneud i'n gilydd chwerthin, dan ni'n edrych ar ôl ein gilydd ac mae'r cyfeillgarwch yn gadarn.

**Trystan:** Mae gwneud ffrind gorau newydd yn dy 30au / 40au yn gyffrous ac yn neis iawn. Dwyt ti ddim yn gallu actio bod yn ffrindiau gorau gyda rhywun. Chwe blynedd wedyn a dan ni dal yn ffrindiau.

### Dach chi'n cyflwyno ar y radio gyda'ch gilydd ers dwy flynedd - beth ydy'r peth gorau am hynny?

**Trystan:** Dydy cyflwyno ein sioe radio ddim yn teimlo fel gwaith, gan mai dau ffrind yn mynd i eistedd mewn stiwdio yn sgwrsio a gwrando ar gerddoriaeth ydy o mewn gwirionedd!

**Emma:** Mae o hefyd yn braf iawn gan ein bod yn perthyn i gymuned a chylch o ffrindiau sy'n gwrando ar Radio Cymru - ac os dan ni'n cael ffit o gigs, dan ni wastad yn gallu chwarae cân!

#### Sioe Emma a Trystan:

Mae Sioe Emma a Trystan ymlaen ar BBC Radio Cymru bob dydd Gwener, 9:00 - 11:00yb.

Yn **Priodas Pum Mil** mae Emma a Trystan yn cael sialens o drefnu priodas am £5,000.

Yn **Prosiect Pum Mil**, mae'r ddau yn cael sialens o wneud prosiect yn y gymuned am £5,000.



### Gyda phwy hoffech chi gyfnewid swydd am y dydd?

**Emma:** Ro'n i wastad eisiau bod yn **fydwraig**. Dw i weithiau'n meddwl sut berson faswn i taswn i wedi mynd lawr y llwybr yna, a sut mae'r swydd wyt ti'n ei gwneud yn effeithio ar dy bersonoliaeth di.

**Trystan:** Huw Edwards. Mi faswn i wir yn hoffi cyflwyno rhaglen newyddion. Mae gen i ddiddordeb mawr mewn newyddion a dw i'n hoffi'r syniad o eistedd tu ôl i ddesg yn cyflwyno.

Eich hoff le yng Nghymru?

Emma: Cricieth

Trystan: Llyn Llanberis

### Eich hoff le yng Nghymru?

**Emma:** Cricieth. Mae fy nheulu yn dod o Gricieth a dw i wrth fy modd efo'r lle. Ar ddiwrnod braf, chewch chi unlle gwell.

**Trystan:** Llyn Llanberis. Mae'r olygfa sy'n edrych fyny dros y llyn am y pentref ac am yr Wyddfa yn arbennig. Dw i'n teimlo mod i adra yno, ac mae'n fy llenwi â hapusrwydd a theimlad positif, cynnes, neis.

### Pa ddigwyddiadau dach chi'n edrych ymlaen fwyaf atyn nhw dros yr haf?

**Trystan:** Dw i'n meddwl y bydd pob Cymro yn **anelu** am Dregaron i'r Eisteddfod Genedlaethol fis Awst - edrych ymlaen yn fawr at hynny.

**Emma:** Eisteddfod Tregaron yn sicr i fi ac mae **Tafwyl** yng Nghaerdydd yn arbennig iawn hefyd. Dw i wedi perfformio yno gyda Eden cwpl o weithiau ond gobeithio mynd eleni i ymlacio a mwynhau.

### Beth fyddwch chi'n wneud dros y misoedd nesaf?

**Trystan:** Mae ein sioe radio ymlaen bob dydd Gwener a dan ni hefyd ar ganol ffilmio cyfresi newydd o Priodas Pum Mil a Prosiect Pum Mil.

**Emma:** Mi fydd Prosiect Pum Mil ar S4C yn yr hydref, a Priodas Pum Mil gyda rhaglen arbennig ddydd Nadolig, a'r gyfres newydd ar S4C ar ôl hynny.

## GEIRFA



**dod ar draws ein gilydd** – to come across each other

**go iawn** – real

**ar fin** – just about (to do something)

**cyfeillgarwch** – friendship

**cadarn** – solid

**mewn gwirionedd** – in reality

**perthyn i gymuned** – to belong to a community

**cyfnewid** – to swap

**bydwraig** – midwife

**unlle gwell** – no better place

**anelu** – aiming towards somewhere or something

**Tafwyl** – Cardiff's Welsh Language festival

Emma and Trystan have a radio show every Friday morning on BBC Radio Cymru and are also co-presenters on Priodas Pum Mil and Prosiect Pum Mil on S4C. In these programmes, they are challenged to organise a wedding / community project with a budget of £5,000.

# Cyfle i bobl ifanc

# DDYSGU CYMRAEG

am ddim

Ym mis Medi 2022 bydd cyrsiau Dysgu Cymraeg am ddim ar gael i bobl ifanc 18-25 oed. Beth am gwrdd â chriw o bobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg yn barod...

## Darnau'r jig-so yn disgyn i'w lle i Jonathan o Gasllwchwr

Roedd Jonathan Davies, sy'n dod o Gasllwchwr, ger Abertawe, eisiau dysgu Cymraeg er mwyn siarad yr iaith gyda'i gariad a'i ffrind gorau, sy'n siaradwyr Cymraeg.

Roedd Jonathan wedi astudio'r Gymraeg tipyn bach yn yr ysgol, ac yn 2020 fe ddechreuodd ddefnyddio ap Cymraeg Duolingo, cyn cael gwersi mewn dosbarth **rhithiol** gyda Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe.

Erbyn hyn, mae Jonathan yn dilyn cwrs lefel Uwch ac yn siarad yn naturiol ac yn hyderus.

Meddai: "I ddechrau, ro'n i'n llwyddo i wneud cysylltiad rhwng geiriau ro'n i'n eu cofio o'r ysgol, yna gwnaethon ni symud ymlaen i ddysgu pethau newydd. Mae'r darnau jig-so wedi **disgyn i'w lle.**"

Mae Jonathan yn edrych ymlaen at fynd i Eisteddfod Genedlaethol Tregaron ac at siarad Cymraeg am wythnos gyfan!



"Ro'n i'n llwyddo i wneud cysylltiad rhwng geiriau ro'n i'n eu cofio o'r ysgol."

"Dw i'n gobeithio bydd yn helpu dysgwyr fel fi i fagu hyder."

## Dysgwr yn creu ap i ymarfer ei Gymraeg

Mae Lewis Campbell yn gobeithio creu ap sy'n helpu dysgwyr Cymraeg, fel fe ei hun, i ymarfer eu Cymraeg trwy **ddeallusrwydd artiffisial.**

Mae Lewis, sy'n dod o Gwm Rhondda, yn dysgu Cymraeg gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin ym Mhrifysgol Bangor, ble mae'n astudio am radd **ymchwil** Phd gyda'r adran Gyfrifiadureg.

Meddai: "Fy syniad oedd creu ap i wella sgiliau sgwrsio a rhoi **adborth** ar **ynganiad** neu strwythur brawddeg. Bydd ganddo sefyllfaoedd lle gallech chi fod eisiau defnyddio'r iaith - fel y siop. Dw i'n gobeithio bydd yn helpu dysgwyr fel fi i fagu hyder."

Dechreuodd Lewis ei daith iaith ar Duolingo. Defnyddiodd ap SaySomethinginWelsh hefyd, cyn dilyn cyrsiau Mynediad a Sylfaen.

"Dw i'n falch iawn fy mod i wedi dechrau dod yn siaradwr Cymraeg. Mae dysgu fel oedolyn yn brofiad gwahanol i'r gwersi yn yr ysgol," ychwanegodd.







"Mae hi'n neis iawn cael siarad Cymraeg efo fy mam."

### Merch a'i mam yn dysgu Cymraeg

Mae Bethan Howells wedi bod yn awyddus i ddysgu Cymraeg ers iddi symud i Gymru gyda'i theulu ar ôl byw am 10 mlynedd yn Kuala Lumpur, Malaysia.

Roedd Bethan yn **gyfarwydd** gyda rhai geiriau oherwydd bod ei mam yn dod o Ynys Môn. Ond, doedd hi erioed wedi clywed sgwrs Gymraeg cyn symud i Lanfairpwll yn 2013.

Penderfynodd fynd ati o **ddifri** i ddysgu'r iaith gan ddechrau trwy ddefnyddio ap SaySomethinginWelsh, cyn ymuno â dosbarthiadau rhithiol Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin yn ystod y cyfnod clo.

Mae ei mam, Fiona, hefyd wedi dechrau dysgu ac mae Bethan yn mwynhau defnyddio ei Chymraeg yn y gymuned leol:

"Mae hi'n neis iawn cael siarad Cymraeg efo fy mam," meddai Bethan. "Y peth gorau i mi am ddysgu Cymraeg ydy cael sgwrs efo pobl ar y stryd neu mewn siopau. Mi oeddwn i hefyd yn gweithio mewn caffi dros y **cyfnod clo** felly mi ges i lawer o gyfle i ddefnyddio fy Nghymraeg wrth fyw yn Llanfairpwll."

Young people aged 18-25 will be offered free Learn Welsh courses from September 2022. Here, we speak to Jonathan, Lewis, Bethan and Nicole who are currently learning Welsh. If you're between 18-25 years of age and want to hear more about this scheme, visit [learnwelsh.cymru](https://www.learnwelsh.cymru) to register your interest.

### Cariad yn ysbrydoli Nicole i ddysgu Cymraeg

Roedd Nicole Lozeau, sy'n dod o California, eisiau dysgu Cymraeg er mwyn siarad yr iaith gyda'i chariad, Siôn, sy'n dod o Seion, ger Caernarfon.

Cyn cyfarfod Siôn, yn Chwefror 2019, doedd hi erioed wedi clywed am **fodolaeth** y Gymraeg. Yn fuan, fe sylweddolodd mai'r Gymraeg oedd prif iaith ei deulu a'i gymuned.

Ym mis Medi 2021, dechreuodd ddysgu Cymraeg mewn dosbarth rhithiol gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin, a hynny o America am 12.00 - 1.30yb. Erbyn hyn, mae Nicole wedi symud i Gymru i fyw gyda Siôn, ac mae'n dysgu mewn dosbarth '**go iawn**' am 8.00yb.

Hoffai Nicole annog pobl ifanc eraill i ddysgu:

"Os wyt ti'n ifanc, ac awydd dysgu Cymraeg, cer amdani. Mi allai fod o **fudd** mawr i ti - yn arbennig os wyt ti'n bwriadu byw mewn cymuned Gymraeg. Mi wyt ti'n sicr yn mynd i wneud mwy o ffrindiau os wyt ti'n gallu siarad yr iaith."



"Mi wyt ti'n sicr yn mynd i wneud mwy o ffrindiau os wyt ti'n gallu siarad yr iaith."

## GEIRFA



- rhithiol** – virtual
- disgyn i'w lle** – fall into place
- deallusrwydd artifisial** – artificial intelligence
- ymchwil** – research
- adborth** – feedback
- ynganiad** – pronunciation
- cyfarwydd** – familiar
- o ddifri** – seriously
- cyfnod clo** – lockdown
- ysbrydoli** – inspire
- bodolaeth** – existence
- go iawn** – real
- budd** – benefit

# Pobi gyda THIBAULT

Dych chi'n hoffi coginio?  
Dych chi'n gwyllo rhaglen Bake Off: The Professionals?

Thibault Courtoisier a'i bartner busnes ar y pryd, Laurian Veaudor, wnaeth ennill Bake Off: The Professionals 2020.

Heddiw, mae Thibault yn rhedeg ei fusnes ei hun, ac yn byw yng Nghaerdydd gyda'i bartner, Cari a'u merch fach, Gwen.

Enw'r busnes ydy Patisserie Verte, ac mae Thibault yn creu **danteithion** figan sy'n cael eu gwerthu ar-lein ac mewn marchnadoedd.

Ers 2020 mae Thibault wedi bod yn dysgu Cymraeg. Yma, 'dyn ni'n cael sgwrs gyda Thibault am goginio, dysgu Cymraeg a llawer mwy...



## Gair am y Gymraeg

### O ble dych chi'n dod a beth ydy eich cefndir chi?

Dw i'n dod o Guyans-Vennes, pentref bach yn nwyrain Ffrainc. Yn chwech oed, es i i fecws a syrthio mewn cariad gyda phobi.

### Pam dych chi'n dysgu Cymraeg?

Dw i'n byw yng Nghymru, felly dw i eisiau dysgu Cymraeg er mwyn dangos **parch** i'r wlad. Hefyd, dw i'n gallu gweld cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

### Beth dych chi'n hoffi am ddysgu Cymraeg?

Dw i'n hoffi gallu deall pobl yn siarad yn yr ardal ac ar Radio Cymru.

### Dych chi'n hoffi dysgu Cymraeg mewn dosbarth rhithiol?

Mae dysgu mewn dosbarth rhithiol yn **hwylus**. Mae'n rhoi cyfle i bawb ymuno, gan gynnwys un dysgwr sy'n byw yn Sweden. Mae'n braf cyfarfod pobl sy'n dysgu Cymraeg o **bob cwr o'r byd**.

### Dych chi'n defnyddio eich Cymraeg y tu allan i'r dosbarth?

Dw i'n gwranddo ar fy mhartner a fy merch yn siarad Cymraeg a dw i'n **cyfrannu** weithiau, ond dw i angen siarad mwy.

### Oes cyngor gyda chi i ddysgwyr?

Daliwch ati! Mae dysgu unrhyw sgil yn cymryd amser, felly peidiwch â rhoi eich hun o **dan bwysau** a mwynhewch.

### Dysgu Cymraeg - beth nesaf?

Dw i eisiau siarad Cymraeg yn rhugl. Ond yn gyntaf, dw i angen gorffen lefel Mynediad a'r lefelau eraill hefyd.



## Gair am goginio

### Sut brofiad oedd cymryd rhan yn Bake Off: The Professionals?

Roedd yn brofiad anhygoel. Mi wnaeth roi cyfle i mi ddangos i bawb beth dw i'n gallu ei wneud, a gwthio fy hun i'r eithaf.

### O ble dych chi'n cael eich syniadau?

Dw i'n gweld pethau ar-lein, neu weithiau dw i'n trio gwneud pethau dw i wedi eu blasu. Dw i hefyd yn trio gwneud danteithion o gyfnod fy mhleentyndod.

### Beth yw eich cynnyrch mwyaf poblogaidd?

Mae ein macarons yn boblogaidd ac yn cael eu postio o gwmpas Prydain. Ond yn ddiweddar, 'dyn ni'n pobi llawer ar gyfer priodasau. Mae creu **campwaith** i'w **arddangos** a'i fwyta mewn priodas yn llawer o hwyl!

### Oes cynlluniau i ddatblygu'r busnes?

Oes, mae llawer o **gynlluniau** gyda ni i **ykestyn** a gwella'r busnes. Y cam nesaf ydy symud safle a **chyflogi** staff.

### Ydy dysgu Cymraeg yn mynd i helpu'r busnes?

Ydy, yn bendant. Dw i'n gobeithio y bydda i'n gallu coginio rysâit ar S4C ryw ddydd!

"Dw i eisiau siarad Cymraeg yn rhugl."

Thibault Courtoisier won Bake Off: The Professionals with Laurien Veaudor in 2020, and today runs Patisserie Verte in Cardiff with his wife, Cari. They sell plant-based French patisseries ranging from macarons and bespoke birthday cakes to all sorts of treats for all occasions. Thibault is enjoying learning Welsh, to speak with his family and to use in the business.

Dyma un o hoff ryseitiai Thibault. Beth am roi cynnig ar greu Tarte Tatin?

# TARTE TATIN



Lluniau: Jen Abell

Tarten gyda afalau blasus a saws caramel

**Amser:** 90 munud  
**Ar gyfer:** 4/6 person

### Cynhwysion:

- 1 pecyn o grwst pwff Jus Roll
- 4 afal coginio Braeburn wedi'u pilio a'u torri'n **dafellau** crwn
- 100g o siwgr
- 85g o fenyn

Popty: 180c / Nwy: 4

### Dull:

- Rholiwch y crwst a'i roi ar bapur pobi.
- **Pigwch** y crwst gyda fforc, ac yna **gorchuddiwch** a'i rewi tra dych chi'n paratoi'r afalau.
- Rhowch y siwgr mewn sosban, a chynheswch e'n araf dros wres canolig.
- Coginiwch am bum neu chwech munud nes ei fod yn troi'n lliw caramel tywyll.
- Tynnwch y sosban oddi ar y gwres, a **chwipiwch** y menynd i mewn iddo.
- Gosodwch y darnau afal ar ffurf cylchoedd mewn **dysgl** fflan, tan eu bod yn gorchuddio'r ddysgl i gyd.
- Gwnewch yn siŵr fod dim bylchau rhwng yr afalau.
- Rhowch y siwgr a'r menynd wedi **toddi** ar ben yr afalau.
- Pobwch am 30 munud ac yna tynnwch y ddysgl o'r popty a rhowch y crwst, sy wedi'i rewi, ar ei ben.
- Defnyddiwch gyllell i wneud ychydig o dyllau yn y crwst, a rhoi'r ddysgl nôl yn y popty a'i goginio am 45 munud, nes bod y crwst wedi troi'n lliw brown.
- Oerwch am hanner awr cyn defnyddio gyllell i **ryddhau'r** crwst o'r ochrau, ac yna trowch y darten **wyneb i waered** ar blât dwfn.
- **Gweinwch** y pwdin gyda hufen.

## GEIRFA



- danteithion** – sweet treats
- parch** – respect
- rhithiol** – virtual
- hwylus** – convenient
- pob cwr o'r byd** – four corners of the world
- cyfrannu** – to contribute
- o dan bwysau** – under pressure
- gwthio fy hun i'r eithaf** – push myself to the limit
- plentyndod** – childhood
- cynnyrch** – produce
- campwaith** – masterpiece
- arddangos** – display
- cynlluniau** – plans
- ymestyn** – extend
- cyflogi** – employ
- tafellau** – slices
- pigwch** – prick
- gorchuddiwch** – cover
- chwipiwch** – whisk
- dysgl** – dish
- toddi** – melt
- rhyddhau** – release
- wyneb i waered** – upside down
- gweinwch** – serve

# Twitter, Instagram a Tik Tok

Dych chi'n defnyddio Twitter, Instagram a Tik Tok?  
Beth am fwynhau eich Cymraeg trwy ddilyn y cyfrifon isod?

twitter 	ENW	LYFEIRIAD	PWY NEU BETH?
 	AM <b>Aled Hughes</b> Aleighcia Scott <b>Alex Humphreys</b> Manon Steffan Ros <b>Huw Stephens</b> S4C Dysgu Cymraeg <b>FA Wales</b>	@ambobdim <b>@boimoel</b> @AleighciaSings <b>@allyhumphreys</b> @ManonSteffanRos <b>@huwstephens</b> @S4CDysguCymraeg <b>@FAWales</b>	Gwefan ac ap sy'n llwyfan digidol i'r celfyddydau yng Nghymru. <b>Cyflwynydd ar Radio Cymru.</b> Artist Reggae a chyflwynydd ar BBC Radio Wales. <b>Newyddiadurwraig, sy hefyd yn cyflwyno'r tywydd ar S4C.</b> Awdur. <b>Cyflwynydd radio a theledu.</b> Gwasanaeth S4C i ddysgwyr Cymraeg. <b>Timau cenedlaethol pêl-droed Cymru.</b>
instagram   	Elin Fflur <b>Al Lewis</b> Lŵp <b>Sioned Medi Evans</b> Cadi Mars <b>Chris Roberts</b> Naomi yn Tyfu <b>Ceri Lloyd</b>	@elinfflurmusic <b>@allewismusic</b> @lwps4c <b>@s__m__e__i</b> @bwyd__ <b>@flamebaster</b> @naomigrows <b>@ceri_lloyd</b>	Cantores a chyflwynydd. <b>Canwr a chyfansoddwr.</b> Cerddoriaeth newydd a diwylliant cyfoes. <b>Arlunydd ac animeiddiwr.</b> Ryseitiau syml trwy gyfrwng y Gymraeg. <b>Cogydd ar raglen 'Bwyd Epic Chris' ar S4C.</b> Cyflwynydd rhaglen 'Garddio a Mwy' S4C. <b>loga, iechyd a lles.</b>
tiktok   	Lewis Owen <b>Ellis Lloyd Jones</b> Bronwen Lewis <b>Bethany</b> Ffion Angell <b>Todz</b> Hansh	@bendigaydfran <b>@xellisloydjonesx</b> @bronwenlewismusic <b>@bfdavies</b> @ffionangell <b>@sagetodz</b> @hanshs4c	Mae'n canu, meimio a dawnsio i gerddoriaeth Gymraeg. Mae'n sôn am Gymru. <b>Sgetsys byr.</b> Cerddor sy'n cyfieithu caneuon Saesneg poblogaidd i'r Gymraeg. <b>Mae Bethany yn gwneud sgetsys byr ac yn sôn am Gymru a'r iaith Gymraeg.</b> Mae Ffion yn rhannu caneuon Cymraeg, gyda isdeitlau Saesneg. <b>Rapiwr a chyfansoddwr y dril cyntaf erioed yn yr iaith Gymraeg.</b> Clipiau comedi/cyfoes sy'n rhoi llwyfan i bobl ifanc Cymru.

## GEIRFA



**newyddiadurwraig** – newsreader  
**cyfansoddwr** – composer  
**diwylliant cyfoes** – contemporary culture  
**arlunydd ac animeiddiwr** – artist and animator  
**lles** – well-being

Do you use Twitter, Instagram or TikTok? Why not enjoy using your Welsh by following some of the accounts we've listed here?

# HANES YN Y TIR

Mae llyfr 'Hanes yn y Tir' gan Dr Elin Jones yn mynd â darllenwyr ar daith o gwmpas Cymru i ddysgu mwy am hanes y wlad. Mae'r llyfr wedi ei ysgrifennu mewn iaith glir, hawdd ei darllen. Dyma ddwy stori o'r llyfr.



## Urdd Gobaith Cymru

Mae llawer iawn o blant wedi cael **blas newydd** ar fod yn Gymry trwy ymuno ag Urdd Gobaith Cymru. Cafodd y mudiad ieuenctid hwn **ddylanwad** mawr mewn sawl maes ac ym **mhob cwr o'r wlad** dros y ganrif ddiwethaf. Cafodd yr Urdd ei **sefydlu** gan Ifan ab Owen Edwards yn 1922 i gynnig **profiadau difyr** i blant a phobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr Urdd yw'r **mudiad ieuenctid** mwyaf yng Nghymru heddiw, gyda dros 55,000 o aelodau. Mae canolfannau (gwerysilloedd) gan yr Urdd ym Mae Caerdydd, Llanuwchllyn a Llangrannog.

Yn ogystal â **gweithgareddau'r** gwerysilloedd ac **amrywiaeth** o chwaraeon, mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn cael ei chynnal mewn lle gwahanol yng Nghymru bob blwyddyn ddiwedd mis Mai. Cafodd bathodyn y mudiad ei **addasu'n** gymeriad cartŵn hoffus a bywiog yn 1976 - dych chi'n adnabod Mistar Urdd?



## Addysg a'r Gymraeg

Cafodd Ysgol Dewi Sant, Llanelli, ei hagor yn 1947. Hon oedd yr ysgol gynradd gyntaf oedd yn dysgu drwy'r Gymraeg i gael ei sefydlu gan **awdurdod lleol**.

Agorwyd rhagor o ysgolion cynradd tebyg yn y blynyddoedd wedyn. Agorodd yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf, Ysgol Glan Clwyd, yn Y Rhyl yn 1956. Daeth yr ysgolion hyn yn boblogaidd iawn.

Erbyn heddiw mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn dysgu drwy'r Gymraeg. Ac mae'n rhaid i bob disgybl ysgol ddysgu Cymraeg fel pwnc yn yr ysgolion uwchradd hefyd.

Ond doedd dim llawer o gyfle i fynd ymlaen i ddilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg yn y **brifysgol**. Yn 2011 cafodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei sefydlu i **hybu** dysgu drwy'r Gymraeg ym mhrifysgolion Cymru.



'Hanes yn y Tir' is a new book looking at the history of Wales, from its mysterious megalithic chambers to the Senedd, the Welsh Government parliament building, in Cardiff Bay. These two excerpts from the book look at the history of the Urdd youth organisation and the first Welsh medium schools in the 1940s.

**Oeddech chi'n gwybod?**  
Eleni, mae hi'n 100 mlynedd ers sefydlu'r Urdd ac yn 75 mlynedd ers agor Ysgol Dewi Sant, Llanelli.



## HOLI DR ELIN JONES

**O ble dych chi'n dod yn wreiddiol?**  
Ystrad Mynach, Cwm Rhymni.

**Sut ddechreuodd eich diddordeb mewn hanes?**  
Trwy ddarllen llyfr o'r enw A Child's Day through the Ages. Roedd yn dweud hanes diwrnod plentyn o **Oes y Cerrig** at y 1800au. Roedd e'n rhoi manylion am bethau fel ymolchi, brecwast, gwersi, chwaraeon ac yn y blaen. Jiw, ro'n i'n dwlu ar y llyfr hwnnw!

**Oes gennych chi hoff stori neu gyfnod yn y llyfr?**  
Lle **creulon** oedd y gorffennol, yn enwedig i wragedd a phlant. Dw i'n hoffi'r hanesion am fenywod sy'n **herio rhagfarn**, fel Gwerfyl Mechain, Catrin o Ferain, Elizabeth Miles, Vulcana a Betty Campbell.

## GEIRFA



**blas newydd** – new taste  
**dylanwad** – influence  
**pob cwr o'r wlad** – four corners of the country  
**sefydlu** – to establish  
**profiadau difyr** – interesting experiences  
**mudiad ieuenctid** – youth movement  
**gweithgareddau** – activities  
**amrywiaeth** – variety  
**addasu** – to adapt  
**awdurdod lleol** – local government  
**prifysgol** – university  
**hybu** – to encourage  
**Oes y Cerrig** – Stone Age  
**creulon** – cruel  
**herio** – to challenge  
**rhagfarn** – prejudice  
**annibynnol** – independent

# HANES YN Y TIR

Edrych am Hanes Cymru



5

Elin Jones

1. Un o'r dosbarthiadau cyntaf yn Ysgol Dewi Sant, Llanelli.
2. Adran y Treuddyn, pentref yn Sir y Fflint. Adran yw'r enw am grŵp yn yr Urdd ac roedd yr adran gyntaf ym mhentref Treuddyn.
3. Ifan ab Owen Edwards wnaeth sefydlu Urdd Gobaith Cymru yn 1922.
4. Norah Isaac, prifathrawes Ysgol Lluest yn Aberystwyth - ysgol Gymraeg **annibynnol** a sefydlwyd gan Urdd Gobaith Cymru yn 1939.
5. Mae 'Hanes yn y Tir' ar gael o'ch siop lyfrau leol neu wefan carreg-gwalch.cymru am £16.50.

# Hanes Dyddgu

# AR Y CAE RYGBI

Mae Dyddgu Hywel yn sylwebydd rygbi ar S4C a BBC Radio Cymru. Enillodd hi 31 cap i Gymru.

Mae hi'n dod yn wreiddiol o bentref bach Padog ger Betws y Coed ac yn gweithio fel **Uwch Ddarlithydd Addysg** ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mi gawson ni air gyda hi am ei **gyrfa** yn y byd rygbi a gêm y merched yng Nghymru.

## Pryd wnest ti ddechrau chwarae rygbi?

Mi wnes i ddechrau chwarae rygbi i Glwb Rygbi Nant Conwy yn Llanrwst pan oeddwn i tua chwech oed. Doedd dim tîm merched ar y pryd, fi oedd yr unig ferch yng nghanol y bechgyn.

Yna, roedd athrawes yn yr ysgol uwchradd yn **annog** merched i chwarae rygbi, ac mi wnes i chwarae gyda thîm yr ysgol yn nhwrnament saith bob ochr yr Urdd.

Ar ôl gorffen yn y brifysgol, mi wnes i ymuno â Chlwb Rygbi Caernarfon, yna cael fy newis i chwarae i'r Scarlets yn Llanelli. O fewn ychydig o fisoedd, ges i fy **ngwahodd** i sgwad Cymru.

Dw i'n cofio fy nghap cyntaf, Cymru yn erbyn Iwerddon ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad. Do'n i ddim yn medru canu'r anthem achos ro'n i dan gymaint o emosiwn - y **balchder** o wisgo crys Cymru a'r teulu yno yn fy nghefnogi.

Dw i wedi ymddeol o'r gêm broffesiynol ers Haf 2019 ar ôl wyth mlynedd yn nhîm Cymru.

## Mae tîm rygbi Merched Cymru yn broffesiynol ers Ionawr 2022 - pa wahaniaeth mae hynny wedi ei wneud?

Pan oeddwn i'n chwarae, roedd gen i ddwy swydd **mewn gwirionedd**. Yn fy mlwyddyn gyntaf yn chwarae i Gymru, ro'n i'n **darlithio** yn llawn amser yng Ngholeg Meirion Dwyfor.

Ro'n i'n gorffen darlithio am 12:00 ar brynhawn Mercher, teithio lawr i'r de, hyfforddi rhwng 6:30 a 9:30yh ac yna gyrru nôl i'r gogledd yn barod i ddarlithio eto fore lau. Ro'n i wedyn yn teithio lawr bob penwythnos i hyfforddi ac ro'n i'n **treulio** pob eiliad sbâr yn gweithio ar fy ffitrwydd.

Felly, mae'n gwneud byd o wahaniaeth i'r merched fod yn broffesiynol. Maen nhw'n medru gweithio oriau **call**, a chael amser i drafod y gemau a rhoi **amser adfer** i'w corff - rhywbeth oedd yn amhosib i ni.

Dyddgu Hywel is a rugby commentator and has won 31 caps for Wales as a full-back. In this article, she talks about her journey to winning her first cap for Wales and the difference for the players since the women's national team has turned professional.



Don i ddim yn medru canu'r anthem achos ro'n i dan gymaint o emosiwn - y balchder o wisgo crys Cymru a'r teulu yno yn fy nghefnogi.



Dyddgu yn sylwebu yn y stadiwm

## Cwpan Rygbi'r Byd

Bydd tîm merched Cymru yn teithio i Seland Newydd ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd yn yr hydref. Pob lwc iddyn nhw!

Dyddgu yn chwarae i Gymru yn erbyn Iwerddon ym Mharc yr Arfau, Caerdydd, 2017



Rhywbeth yn y dŵr?



Dyddgu a Gwenllian Pyrs yn ystod Pencampwriaeth y Chwe Gwlad, 2017

Mae pentref Padog yn fach iawn ond dych chi'n gwybod bod Gwenllian Pyrs, sy'n chwarae i Gymru ar hyn o bryd, wedi cael ei magu ar y fferm **gyferbyn** â Dyddgu? Mae chwarae fach Gwenllian, Alaw, yn chwarae i dîm o dan 18 Cymru. Tair merch, o bentref bach Padog, wedi ennill cap i Gymru.

## GEIRFA



- sylwebydd** – commentator
- Uwch Ddarlithydd Addysg** – Senior Lecturer in Education
- gyrfa** – career
- annog** – encourage
- gwahodd** – invite
- balchder** – pride
- gwahaniaeth** – difference
- mewn gwirionedd** – in reality
- darlithio** – lecture
- treulio** – spend time
- call** – sensible
- amser adfer** – recovery time
- gyferbyn** – opposite
- darlledwr** – broadcaster
- brwd** – enthusiastic
- oddi cartref** – away from home

# y Wal Goch

## ALLEN, RAMBO A FI

Os dych chi'n mwynhau pêl-droed, dych chi'n gallu mwynhau eich Cymraeg chi wrth gefnogi tîm Cymru. Yr awdur a'r **darlledwr** Tim Hartley, cefnogwr **brwd** o'r tîm pêl-droed cenedlaethol, sy'n dweud mwy...



Mae lot o lefydd lle dych chi'n gallu ymarfer eich Cymraeg... y dafarn, yr eglwys, heb anghofio'r ystafell ddosbarth wrth gwrs. Ond oeddech chi'n gwybod bod gwyllo tîm pêl-droed Cymru yn gyfle ffantastig i glywed ac i siarad yr iaith?

Mae'r FAW yn defnyddio llawer o Gymraeg, ar y posteri yn y stadiwm, yn y rhaglen ac mae lot o hwyl i gael wrth ganu yn Gymraeg, cyn ac yn ystod y gêm. Dych chi wedi dysgu Calon Lân? Neu Yma o Hyd? A byddwch chi'n clywed yr anthem genedlaethol, Hen Wlad fy Nhadau, yn cael ei chanu cyn, a weithiau yn ystod y gêm. Mae'r chwaraewyr i gyd wedi dysgu'r geiriau.

Y cefnogwyr sy wedi dechrau canu'r anthem yn ystod y gemau, ac mae gemau Cymru yn Stadiwm Dinas Caerdydd ac **oddi cartref** yn fôr o Gymraeg. Mae nifer o'r chwaraewyr yn siarad Cymraeg. Dyna i chi Joe Allen a Ben Cabango. Ond oeddech chi'n gwybod fod Aaron Ramsey hefyd wedi dysgu Cymraeg pan oedd e'n fachgen ysgol yng Nghaerffili? Beth well - ymarfer eich Cymraeg wrth wyllo'r tîm cenedlaethol.

## Cwmn Cymru!

Author, broadcaster and Wales fan Tim Hartley talks about the opportunities to enjoy your Welsh while following the Wales football team.

**Pob lwc i dîm pêl-droed Cymru yng Nghwpan y Byd 2022. Cofiwch wyllo'r gemau ar S4C dros y gaeaf.**



# Croeso nôl i'r **EISTEDDFOD**

Ar ôl dwy flynedd dawel dros y cyfnod clo,  
bydd digwyddiadau gwych yn dod yn ôl yn ystod yr haf.

Un o'r prif ddigwyddiadau yng Nghymru ydy'r Eisteddfod Genedlaethol, sy yn Nhregaron, Ceredigion eleni rhwng 30 Gorffennaf - 6 Awst.

Elen Elis ydy Trefnydd a **Chyfarwyddwr Artistig** yr Eisteddfod Genedlaethol a chawson ni sgwrs gyda hi am Eisteddfod Ceredigion 2022...

## **Bydd llawer o siaradwyr Cymraeg newydd yn mynd i'r Eisteddfod am y tro cynta - pa fath o le ydy'r Eisteddfod?**

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn wyl **gelfyddydol** a **diwylliannol**, sy'n teithio i rywle gwahanol bob blwyddyn - i'r gogledd, i'r de ac i'r canolbarth. Mae popeth ar y maes yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Eisteddfod dros wyth diwrnod yn ystod wythnos gyntaf mis Awst ac mae croeso cynnes i bawb!

## **Sut deimlad ydy trefnu Eisteddfod 'go iawn' am y tro cyntaf ers dwy flynedd?**

Dan ni'n brysur iawn ar hyn o bryd, ond mae hi'n braf cael bod yng nghanol y **bwrlwm** eto. Bydd 26 llwyfan ar y maes, ac mae llawer o bethau cyffrous, newydd ymlaen hefyd. Bydd hi'n wyl arbennig!

## **Beth sy ar y maes eleni?**

Bydd llawer o bethau - y **Tŷ Gwerin**, y Pentref **Llenyddiaeth**, y Pentref **Gwyddoniaeth a Thechnoleg**, y Babell Gelf, Maes B i bobl ifanc a'r pafiliwn **cystadlu** sy'n dal dros 1,800 o bobl. Bydd hefyd 250 - 300 o stondinau, **rhywbeth at ddant pawb** gobeithio.

## **Oes unrhyw beth newydd eleni?**

Un peth cyffrous ydy'r pentref dysgwyr - Maes D. Ro'n ni eisiau creu **gofod cartrefol**, yn arbennig i ddysgwyr. Yn y pentref, bydd tipi gyda llwyfan i gynnal digwyddiadau a chwt creffttau drws nesaf i sgwrsio a chreu.

## **Beth ydy'r peth gorau am drefnu yr Eisteddfod?**

Un o'r pethau dw i yn ei fwynhau fwyaf ydy **cefnogi** artistiaid i greu, a gweld eu gwaith yn dod yn fyw yn yr Eisteddfod.



# Uchafbwyntiau Maes D

Pentref Dysgwyr yr Eisteddfod Genedlaethol

- ▷ **Dydd Sadwrn 30 Gorffennaf am 4yp** - Y Cwis Mawr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Mentrau Iaith Cymru
- ▷ **Dydd Sul 31 Gorffennaf am 5yp** - Gweithdy patisserie gyda Thibault Courtoisier (ewch i dudalennau 10-11 i ddod i adnabod Thibault yn well!)
- ▷ **Dydd Sul 31 Gorffennaf am 2yp ac Iau 4 Awst am 5yp** - Taith gerdded o gwmpas Tregaron gyda Merched y Wawr
- ▷ **Dydd Llun 1 Awst am 10:30yb** - Sesiwn ganu gyda chriw o Ysgol Gerdd Ceredigion
- ▷ **Dydd Mawrth 2 Awst am 4yp** - Sioe 'Mewn Cymeriad' Syr Ifan ab Owen Edwards (ewch i dudalennau 14-15 i ddarllen mwy am yr Urdd)
- ▷ **Dydd Mercher 3 Awst am 5yp** - Noson 'Whodunnit'
- ▷ **Dydd Iau 4 Awst am 2yp** - y cyflwynydd Sean Fletcher yn sôn am gyfres newydd S4C, Cymru y Dyfodol
- ▷ **Dydd Gwener 5 Awst am 2yp** - Gwenllian Grigg yn holi'r Prif Weinidog, Mark Drakeford
- ▷ **Bob dydd, 5yp yn y Cwt Crefft** - Clwb Paned Maes D.

Cofiwch hefyd am gystadleuaeth Dysgwyr y Flwyddyn ar ddydd Mercher, 3 Awst.

## GEIRFA



**cyfnod clo** – lockdown  
**cyfarwyddwr artistig** – creative director  
**celfyddydol** – arts  
**diwylliannol** – cultural  
**go iawn** – real  
**bwrlwm** – activity  
**gwerin** – folk  
**llenyddiaeth** – literature  
**gwyddoniaeth a thechnoleg** – science and technology  
**cystadlu** – competing  
**rhywbeth at ddant pawb** – something that will appeal to everyone  
**gofod cartrefol** – homely space  
**cefnogi** – support  
**cyflwynydd** – presenter



Rhai o'r digwyddiadau eraill sydd ymlaen dros yr haf

**Gŵyl Arall, Caernarfon: 8 - 10 Gorffennaf**  
Gŵyl gelfyddydol yng nghanol Caernarfon, fydd yn cynnwys sgysiau, llenyddiaeth, cerddoriaeth a chelf.

**Sesiwn Fawr Dolgellau: 15 - 17 Gorffennaf**  
Gŵyl sy'n dathlu'r gorau o fyd gwerin. Mae'r ŵyl yn digwydd mewn nifer o leoedd gwahanol yng nghanol Dolgellau.

**Gŵyl Fwyd Y Fenni: 17 - 18 Medi**  
Yn yr ŵyl fwyd, bydd dros 150 o stondinau bwyd a diod mewn chwech lleoliad yng nghanol Y Fenni.



After two years of lockdown, live 'in person' events are returning this year. In this article, the National Eisteddfod organiser and creative director, Elen Elis, talks about what to expect in Tregaron this year, including the Welsh learners' village. We also share information about other events that are worth a visit.

# Trawsnewid tŷ a DYSGU CYMRAEG



Dych chi wedi gweld Dan Do? Rhaglen deledu ar S4C sy'n ymweld â chartrefi gwahanol ydy Dan Do.

Mae tŷ Hannah Lloyd wedi bod ar Dan Do ar S4C. Mae Hannah wedi **trawsnewid** ei chartref, ac mae'r hanes ar ei chyfrif Instagram @brynoch\_renovation.

Mae Hannah yn dysgu Cymraeg ac roedd hi'n hapus iawn i gael y cyfle i siarad Cymraeg ar y teledu.

Yma, 'dyn ni'n holi Hannah am ei chartref ac am ei rhesymau dros ddysgu Cymraeg...

"Dw i'n mwynhau siarad Cymraeg adref efo Indi a helpu hi gyda'i gwaith cartref."

### O ble dych chi'n dod a beth yw eich cefndir?

Dw i'n dod o'r Drenewydd, ond dw i'n byw wrth ymyl Wrecsam rŵan. Dw i'n byw mewn pentref bach o'r enw Brymbo efo fy ngŵr, Dan, fy merch, Indi, sy'n chwech oed a fy mab, Lennon, sy'n dair oed.

### Pam oeddech chi eisiau dysgu Cymraeg?

Mae Indi yn mynd i ysgol gynradd Gymraeg. Ro'n i eisiau ei helpu hi i ddarllen felly mi wnes i ddechrau dysgu Cymraeg. Dw i'n mwynhau siarad Cymraeg adref efo Indi a helpu hi gyda'i gwaith cartref.

### Pam oedd eich tŷ chi ar Dan Do?

Cafodd y tŷ ei adeiladu yn 1826 felly mae'n llawn **nodweddion** Georgaidd a Fictoriaidd. Mi wnaeth Dan Do gysylltu ar ôl gweld lluniau o'r tŷ ar fy nhudalen Instagram @bryncoch\_renovation.

### Dych chi'n hoffi steilio eich tŷ?

Ydw, dw i'n caru defnyddio lliwiau **llachar** a chymysgu'r hen gyda'r newydd. Dw i'n hoffi cael syniadau drwy edrych ar Instagram a chwilio am hen ddodrefn mewn siopau **elusen**.





**Sut brofiad oedd bod ar Dan Do?**

Roedd o'n brofiad anhygoel. Ro'n i'n nerfus iawn cyn recordio ond roedd y tîm yn neis iawn. Ro'n i'n teimlo'n falch iawn mod i wedi siarad Cymraeg ar y teledu.

**Beth dych chi'n ei fwynhau am ddysgu Cymraeg?**

Dw i'n mwynhau darllen a siarad Cymraeg efo fy merch adref. Dw i wedi dysgu cymaint ers i mi ddechrau dysgu Cymraeg, mae fy hyder i'n cynyddu drwy'r amser.

**Oes cyngor gyda chi i ddysgwyr?**

Ewch amdani! Peidiwch â phoeni os dych chi'n cael pethau yn anghywir. Ymarfer, ymarfer, ymarfer!

**Dych chi'n siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth?**

Ydw, dw i'n siarad gyda athro fy merch yn yr ysgol. Dw i hefyd yn siarad Cymraeg pan 'dyn ni'n mynd ar wyliau i Ynys Môn ac yn mwynhau archebu hufen iâ yn Gymraeg!

**Dysgu Cymraeg - beth nesaf?**

Dw i'n gobeithio pasio fy arholiad lefel Mynediad cyn bo hir. Dw i eisiau parhau i ddysgu a gwella er mwyn helpu fy merch.



Hannah Lloyd's house has appeared on Dan Do, an S4C programme which takes a look at interesting homes across Wales. Hannah lives near Wrexham with her husband and two children and has spent the past few years renovating the family home. The transformation has been documented on Hannah's Instagram page @brynoch\_renovation. Hannah loves learning Welsh and speaking the language with her young daughter, who attends a Welsh language primary school.

**GEIRFA** 

- trawsnewid** – transform
- nodweddion** – features
- llachar** – bright
- elusen** – charity
- cynyddu** – increase
- archebu** – order

# Rajesh

## YN RHANNU PROFIAD

Mae Rajesh David, sy'n dod yn wreiddiol o Mumbai, yr India, wedi byw yng Nghymru ers sawl blwyddyn. Mae'n gerddor sy'n mwynhau perfformio eto ar ôl y pandemig, ac mae'n athro ioga ers 30 mlynedd. Mae Rajesh, sy wedi bod yn dilyn cwrs lefel Uwch, yn rhannu rhai o'i brofiadau gyda ni...



Rajesh, canol, gyda'r triawd Tŷhai



### “Dw i wrth fy modd yn dod â diwylliannau Celtaidd ac Indiaidd at ei gilydd gyda'r triawd Tŷhai.”

Dechreuodd y triawd fel prosiect gyda arian gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. 'Dyn ni wedi perfformio yng Nghymru a Lloegr ac yn dechrau perfformio eto ar ôl y pandemig. Mae albwm newydd gyda ni o'r enw 'Gwanwyn'. 'Dyn ni wrth ein bodd gyda'r albwm a hoffen ni chwarae ein cerddoriaeth i **gynulleidfa ehangach**.

### “Er fy mod i'n teimlo'n swil, dw i'n ceisio siarad Cymraeg mewn siopau, yn y banc, gyda ffrindiau ac yn y llyfrgell.”

Mae 'na nodyn bach ar y ddesg yn y llyfrgell: 'Dechreuwch bob sgwrs yn Gymraeg.' Mae nodyn fel hwn yn rhoi **hwb** i ddysgwyr ac yn rhoi hyder i rywun siarad Cymraeg. Pan dw i'n perfformio yng Nghymru, dw i'n ceisio siarad ychydig o Gymraeg. Dw i'n mynd i sesiynau Cefnogi Dysgwyr a Siop Siarad ar-lein ac yn darllen nofelau Cymraeg, gwranddo ar Radio Cymru a gwyllo rhaglenni ar S4C. Mae'r **adnoddau** ar-lein ar gyfer dysgwyr yn wych.

### “Mae'r her o ddysgu iaith newydd yn gyffrous ac yn rhoi boddhad.”

Fel rhywun sy'n byw yng Nghymru, dw i'n falch o siarad yr iaith a bod yn rhan o'r wlad a'i diwylliant. Dw i wedi dysgu am hanes Cymru, y **chwedlau**, y bobl, y gerddoriaeth a'r farddoniaeth. Er bod fy **ngwreiddiau** yn India, Cymru yw fy nghartref nawr. Dw i'n caru Cymru.

### “Hoffwn i argymhell darllen llyfrau.”

Dw i'n cofio darllen fy llyfr Cymraeg cyntaf i, 'E-ffrindiau', gan Lois Arnold. Ro'n i mor falch ar ôl i fi ddarllen y llyfr. Dw i hefyd wedi mwynhau llyfrau gan Bethan Gwanas a Manon Steffan Ros, sy'n wych ar gyfer dysgwyr. Mae'r gyfres 'Cam at y Cewri' yn ardderchog hefyd. Dw i'n mwynhau darllen cylchgronau fel Golwg, ac yn darllen newyddion ar BBC Cymru Fyw a Golwg 360.

### “Agorwch eich calon i'r llawenydd o fod yn gysylltiedig â phopeth.”

Dyna fy nghyngor i bobl sy'n chwilio am dawelwch meddwl a ffordd o ymlacio. Bob nos dw i'n eistedd yn dawel ac yn ymarfer **meddwlgarwch** am tua 20 munud. Ar y diwedd, dw i wedi ymlacio ac eto mae llawer o egni gyda fi. Dw i'n mwynhau gwranddo ar gerddoriaeth, sy'n rhoi llawer o bleser i fi, ac mae gwyllo **machlud** haul hardd yn fy helpu i i ymlacio bob tro.

Rajesh David, born and bred in Mumbai, now lives in Wales and follows an Advanced level Learn Welsh course. He's a member of an Indo-Celtic musical trio called Tŷhai and is also an experienced yoga teacher. Here, we speak to him about his favourite Welsh books, mindfulness and performing on stage again following the pandemic.

## GEIRFA



**diwylliannau** – cultures  
**triawd** – trio  
**Cyngor Celfyddydau Cymru** – Arts Council of Wales  
**cynulleidfa ehangach** – wider audience  
**hwb** – boost  
**adnoddau** – resources

**boddhad** – satisfaction  
**chwedlau** – legends  
**gwreiddiau** – roots  
**argymhell** – recommend  
**llawenydd** – joy  
**yn gysylltiedig â** – connected to  
**meddwlgarwch** – mindfulness  
**machlud** – sunset

# Dod i adnabod **ADWAITH**



Band “emosiynol,  
**arbrofol a gwleidyddol**”  
ydy ‘Adwaith’, yn ôl eu  
label recordio, **Libertino**.

Enillodd Adwaith Wobr Gerddoriaeth Gymreig 2019 am eu halbwm cyntaf, Melyn, ac nawr mae ail albwm o'r enw Bato Mato ar y ffordd.


Mae gwefan Circuit Sweet yn disgrifio'r albwm fel un sy'n “**hwyl heintus**” hefyd. Mae'r caneuon am fywydau'r merched sy yn y band.

Bydd Adwaith yn chwarae mewn gwyliau gwahanol dros yr haf ac yn mynd ar daith i berfformio'u caneuon newydd. Darllenwch ein cyfweiliad i adnabod y band yn well.





Mae ein caneuon yn gymysgedd o ôl-bync, pop ac indie.



### **Pwy dych chi ac o ble dych chi'n dod?**

Gwen, Hollie a Heledd 'dyn ni a ni ydy band Adwaith. 'Dyn ni'n dod o Sir Gaerfyrddin.

### **Sut wnaeth y band ddechrau?**

Dw i (Gwen) a Hollie yn adnabod ein gilydd ers oedden ni'n ddwy oed a 'dyn ni wedi bod yn ysgrifennu caneuon gyda'n gilydd ers 2015. Gwnaethon ni gwrdd â Heledd yn ein gig cyntaf ym mis Rhagfyr 2015.

### **Pa fath o ganeuon dych chi'n eu canu?**

Mae ein caneuon yn **gymysgedd** o **ôl-bync**, pop ac indie.

### **Hoff gig?**

Gig yn Rough Trade yn Llundain yn 2020 neu ar brif lwyfan Greenman.

### **Oes arwyr cerddorol gyda chi? Pwy sy'n eich ysbrydoli chi?**

Super Furry Animals, Gwenno a Datblygu yn y sîn Gymraeg ond y tu allan i Gymru, Damon Albarn achos mae e mor eclecticig.

### **Dych chi'n canu mewn gigs dros yr haf?**

'Dyn ni'n mynd i ganu yn Greenman, Nozstock a Gŵyl Triban a bydd taith ar gyfer yr albwm newydd hefyd.

### **Ble mae pobl yn gallu gwrandao ar eich cerddoriaeth?**

'Dyn ni ar Spotify, Apple Music a'r **safleoedd ffrydio arferol**. Mae finyls a CDs ar werth gyda ni hefyd.

### **Beth ydy eich hoff air Cymraeg? Pendramwnwgl!**

### **Mae eich cerddoriaeth yn ennyn diddordeb pobl yn y Gymraeg - sut deimlad ydy hynny?**

Mae'n deimlad anhygoel, yn enwedig pan mae rhywun di-Gymraeg yn dweud ein bod ni wedi eu hysbrydoli nhw i ddysgu'r iaith.

### **Oes cyngor gyda chi i ddysgwyr?**

Ymarfer llawer a ffeindio rhywun i ymarfer gyda nhw!

Here we talk to Adwaith who won the 2019 Welsh Music Prize for their first album, Melyn. They will shortly release their second album, Bato Mato and will perform in a number of festivals over the coming months. We've also featured a list of other bands and musicians.

Dych chi'n adnabod yr enwau yma? Dyma restr o fandiau a **cherddorion** eraill o'r sîn gerddoriaeth Gymraeg.

**Papur Wal** Band roc ysgafn o Ogledd Cymru, sy'n byw yng Nghaerdydd.

**Band Pres Llaeggub** Band pres o Ogledd Cymru sy'n **cyfuno** r hen a'r newydd - o hip hop, Drum'n'Bass, a jazz i emynau Cymreig.

**Avanc** Ensemble gwerin ieuencid cenedlaethol cyntaf Cymru. Mae Avanc yn **ail-ddehongli** cerddoriaeth draddodiadol Gymreig.

**Mellt** Band pync-roc o Aberystwyth, sy'n byw yng Nghaerdydd.

**Gwilym** Band pop roc o Ynys Môn a Chaernarfon.

**Sŵnami** Band indie roc o Ddolgellau.

**Mared Williams** Cantores a **chyfansoddwraig** o Ogledd Cymru, sy'n byw yn Llundain.

**Sywel Nyw** Y cerddor Lewys Wyn ydy Sywel Nyw. Mae'n cyfansoddi cerddoriaeth electro-pop.

**Eädyth** Cantores a chyfansoddwraig o Ferthyr Tudful ydy Eädyth. Mae'n **cynhyrchu** cerddoriaeth **enaid** electronic pop.

**Bwncath** Band gwerin o Gaernarfon.

## GEIRFA



**arbrofol** – experimental

**gwleidyddol** – political

**hwyl heintus** – infectious fun

**cymysgedd** – mixture

**ôl-bync** – post punk

**arwyr** – heroes

**ysbrydoli** – inspire

**safleoedd ffrydio arferol** – usual streaming sites

**pendramwnwgl** – headlong

**ennyn** – engender

**cerddorion** – musicians

**cyfuno** – to combine

**ail-ddehongli** – to reinterpret

**chyfansoddwraig** – composer

**cynhyrchu** – to produce

**enaid** – soul



Holi Huw am

# GANU, COVID A DIANC RHAG Y GWAITH

Dych chi wedi gweld rhaglen Côr Cymru ar S4C?  
Cystadleuaeth ydy Côr Cymru sy'n rhoi llwyfan i gorau o bob math.

Mae pump categori yn y gystadleuaeth, sef corau plant, corau ieuenctid, corau cymysg, **corau lleisiau unfath** a chorau sioe. Mae panel o **feirniaid rhyngwladol** yn penderfynu pwy fydd yn mynd ymlaen i'r rownd **derfynol**.

Eleni, côr cymysg Côrddydd wnaeth ennill y gystadleuaeth a derbyn gwobr ariannol o £4,000.

Arweinydd Côrddydd ydy Huw Foulkes. Mae Huw yn gweithio fel **cynhyrchydd** gyda'r BBC yng Nghaerdydd. Yma, 'dyn ni'n holi Huw am y gystadleuaeth a llawer mwy...

## O ble dych chi'n dod?

Dw i'n dod o Fethel, wrth ymyl Caernarfon ond yn byw yng Nghaerdydd erbyn hyn. Gwnes i symud i Gaerdydd i fynd i'r brifysgol ble gwnes i astudio'r Gymraeg ac yna dilyn cwrs mewn **Newyddiaduraeth Darlledu**.

## Pa mor anodd oedd y pandemig i Gôrddydd?

Roedd y pandemig yn anodd iawn i gorau. Doedd yr ymarferion ar Zoom ddim yn llwyddiannus iawn. 'Dyn ni gyd mor hapus i fod yn ôl yn canu efo'n gilydd.

## Faint o ymarfer wnaethoch chi cyn cystadleuaeth Côr Cymru?

Llawer iawn! Mae'n rhaid gwneud yn siŵr fod y côr ar ei orau ar gyfer cystadleuaeth fel Côr Cymru, achos mae **disgwyliadau**'r beirniaid mor uchel. Ro'n ni'n ymarfer dair gwaith yr wythnos cyn y gystadleuaeth.

## Pa mor anodd ydy dewis darnau ar gyfer Côr Cymru?

Anodd iawn. Dw i'n treulio oriau ar YouTube yn gwrando ar gerddoriaeth o wahanol **arddulliau**, ac yn dysgu llawer drwy wrando ar gorau rhyngwladol.

## Dych chi'n chwilio am aelodau newydd ac oes croeso i ddysgwyr?

Mae croeso i bawb yn y côr a 'dyn ni ddim yn cynnal **clyweliadau**. Ond mae'n rhaid i bawb fod yn barod i weithio'n galed ac i **ymrwymo**. Mae ambell ddysgwyr yn y côr sy'n aelodau **ffyddlon** iawn.

## Beth nesaf i Gôrddydd?

'Dyn ni'n cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn edrych ymlaen at hynny.

## Ydy cerddoriaeth yn eich helpu i ddianc rhag eich gwaith gyda'r BBC?

Ydy, yn bendant. Mae mynd i ymarfer côr gyda chriw mawr o ffrindiau yn brofiad mor braf.

## Sut arall dych chi'n ymlacio ar ôl y gwaith?

Dw i'n hoffi rhedeg o gwmpas strydoedd Caerdydd ar ôl diwrnod yn y gwaith.

## GEIRFA

- corau lleisiau unfath** – unison choirs
- beirniaid rhyngwladol** – international adjudicators
- terfynol** – final
- cynhyrchydd** – producer
- newyddiaduraeth darlledu** – broadcast journalism
- disgwyliadau** – expectations
- arddulliau** – styles
- clyweliadau** – auditions
- ymrwymo** – commit
- ffyddlon** – loyal
- dianc** – escape



Here, we chat to Huw Foulkes, conductor of mixed choir, Côrddydd, champions of S4C's choral competition, Côr Cymru 2022.



# Tudalen

# BOSAU


'Dyn ni wedi gwneud dau bos i chi. Mae atebion y Croesair ar dudalen dau ac ewch i [dysgucymraeg.cymru](http://dysgucymraeg.cymru) i gael atebion y Chwilair. Pob lwc!

## Chwilair

haf	tocyn
hufen iâ	trên
braf	<b>porthladd</b>
traeth	pwll nofio
ymlacio	fferi
eli haul	poeth
cwch	barbeciw
môr	picnic
gwyliau	chwarae
tywod	<b>crancod</b>
hwyl	bwced a rhaw
maes awyr	pysgod
hedfan	cerdded
awyren	llwybr

h	a	a	f	p	y	s	g	o	d	l	l	o	m	a	e	s	a	w	y	r	e	g	b	
b	r	a	f	i	n	a	m	t	r	ê	n	d	i	m	p	l	e	p	o	e	t	h	w	
f	f	o	l	l	a	t	o	c	y	n	n	r	h	o	d	ô	i	w	o	w	s	l	g	c
e	dd	y	f	w	n	t	ll	w	y	b	r	a	i	r	c	r	i	ll	o	i	c	e		
t	w	d	t	e	d	y	m	l	a	c	i	o	b	r	n	h	w	n	n	h	r	d		
h	e	c	r	a	ch	w	a	r	a	e	i	â	t	c	i	n	a	o	f	a	a	a		
h	a	y	a	d	w	o	f	a	o	a	ff	e	r	i	c	l	m	f	i	u	n	rh		
s	w	rh	e	h	a	d	e	n	h	u	f	e	n	i	â	u	b	i	c	l	c	a		
a	i	l	th	o	b	a	r	b	e	c	i	w	ll	n	c	w	ch	o	w	ll	o	w		
o	g	w	y	l	i	a	u	i	p	o	r	th	l	a	dd	c	e	r	dd	e	d	e		

## Croesair



Cofiwch fod cytseiniaid dwbl yn llenwi un sgwâr.

### Ar draws

1. Cerddodd Armstrong yma
3. **Tlysau** mae pobl yn gwisgo am eu corff fel **addurniadau**
5. Tŷ bychan, clyd neu le i aros ar wyliau
7. Ewch at y person yma am gymorth gyda'ch **golwg**
9. Yr ardal o gwmpas Yr Wyddfa
11. Mae planhigyn coch a gwyrdd yn siarad **dwli**
13. Mae un ym mhob un o'r llefydd yma: Caernarfon, Dolwyddelan, Aberteifi a Rhaglan

### I lawr

2. Lle i astudio **gwyddoniaeth**
4. Mae hwn yn byw mewn nyth
6. Hoffwn i gerdded llwybr yr \_\_\_\_\_ eleni
8. Byddwch yn croesi un ar eich ffordd o Gasgwent i Fryste
10. Prif **ddiwydiant** y Maldives a Macau
12. Traciau i drenau



Do you like puzzles? Why not have a go at completing our puzzles over a cuppa?! Answers to the Crossword can be found on page two, and answers to the Word Search can be found on [learnwelsh.cymru](http://learnwelsh.cymru). Good luck!

## GEIRFA



**porthladd** – harbour  
**crancod** – crabs  
**tlysau** – jewels  
**addurniadau** – decorations

**golwg** – sight  
**dwli** – nonsense  
**gwyddoniaeth** – science  
**diwydiant** – industry



dysgucymraeg.cymru  
learnwelsh.cymru

## Would you love to learn Welsh with us?

New courses are starting in September, with a 50% discount on courses for beginners - just use WELSH22 at checkout.

### Already learning with us?

Then sign up for your new course before the end of July to get an Early Bird discount - use CYW22 at checkout.

### Aged 18-25?

You can enjoy Welsh courses for free from September - your discount will be applied automatically as you register.

Just go to [learnwelsh.cymru](https://learnwelsh.cymru) for all the information.

## Adnabod rhywun sy eisiau dysgu Cymraeg?

Mae cyrsiau newydd yn dechrau ym mis Medi, gyda gostyngiad 50% i ddechreuwyr - defnyddiwch y côd WELSH22 wrth dalu.

### Dysgu gyda ni yn barod?

Cofiwch gofrestru ar eich cwrs nesaf cyn diwedd Gorffennaf er mwyn cael gostyngiad Cyw Cynnar - defnyddiwch y côd CYW22 wrth dalu.

### 18-25 oed?

Mae pobl ifanc yn gallu mwynhau cyrsiau am ddim o fis Medi ymlaen - bydd y disgownt yn cael ei weithredu wrth gofrestru.

Ewch i [dysgucymraeg.cymru](https://dysgucymraeg.cymru) am fwy o wybodaeth.



**Croeso -  
Welcome!**